

# Ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru

## Pwyntiau allweddol

- Er nad yw'r **pwerau sy'n perthyn i loches a mewnfudo wedi'u datganoli**, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru o dan ei swyddogaethau tai, iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol a thrwy ei hagenda ar gyfer cydlynid cymunedol.
- Hyd at 2001, roedd niferoedd cymharol isel o geiswyr yn penderfynu ymgartrefu yng Nghymru, o'i gymharu â rhai manau yn y DU. Newidiodd hyn yn 2001 pan ddaeth **Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam** yn ardaloedd gwasgaru swyddogol ar gyfer ceiswyr lloches sy'n aros am benderfyniad ar eu hawl am gael eu hamddiffyn.
- Roedd **1,571 o geiswyr lloches yn byw yng Nghymru** yn chwarter cyntaf 2013. Mae'r nifer hon wedi gostwng o uchafswm o 2,616 yn chwarter cyntaf 2007. Ni wyddys nifer y ffoaduriaid ond cafodd ei hamcangyfrif i fod rhwng 6,000 a 10,000.
- Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid** sy'n rhestru sut y bydd yn cefnogi ffoaduriaid a'u galluogi i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru a gwneud cyfraniad llawn i'r gymdeithas.
- Yng Nghymru, fel mewn manau eraill, mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael anawsterau penodol o ran cael hyd i **lety** priodol, ac enghreifftiau o arfer gwael ymhlith darparwyr tai a staff y rheng flaen a all wneud i bobl deimlo'n agored i niwed ac yn anniogel yn eu cartrefi eu hunain.
- Er bod gan geiswyr lloches a ffoaduriaid hawl gyfreithiol i gael mynediad at **ofal iechyd** sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru, ceir tystiolaeth o fynediad annigonol oherwydd rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol a strwythurol.
- Ar y cyfan, mae gan ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru **fwy o gymwysterau** na'u cymheiriaid ym Mhrydain. Mae gan fwy na chwarter radd Brifysgol o'u mamwlad ac mae 8.9% arall yn meddu ar gymhwyster ôl-raddedig.
- Mae'r prif rwystr i **addysg uwch ac addysg bellach** ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ariannol. Mae rhan fwyaf y colegau a'r Prifysgolion yng Nghymru yn ystyried ceiswyr lloches yn fyfyrwyr rhyngwladol er bod ganddynt ddisgresiwn i godi tâl ar geiswyr lloches am ffioedd myfyrwyr cartref neu i hepgor ffioedd yn gyfan gwbl.
- Mae gan ffoaduriaid hawl i weithio ond yn aml byddant yn cael profiad o lefelau uchel o **ddiweithdra a thangyflogaeth**, er gwaethaf y ffaith eu bod yn cyrraedd gyda chymwysterau da a phrofiad gwaith blaenorol yn eu mamwledydd.
- Mae **rhwystrau rhag cyflogaeth** yn cynnwys diffyg sgiliau iaith a/neu sgiliau cyfrifiadurol, anawsterau o ran gwneud ceisiadau am swyddi a mynychu cyfweiliadau, diffyg cydnabyddiaeth am gymwysterau tramor, anawsterau o ran dod o hyd i swyddi gwag, diffyg geirdaon a hiliaeth a chamwahaniaethu ar ran cyflogwyr.
- Ceir **pocedi sylweddol o agweddau negyddol a rhagfarn** tuag at geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru

Lluniwyd gan yr Athro Heaven Crawley, Y Ganolfan Ymchwil i Bolisiau Mewnffudo (CMPR), Prifysgol Abertawe ar ran Partneriaeth Mewnffudo Cymru (WMP)

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2013

[www.wmp.org.uk](http://www.wmp.org.uk)

Ffôn 029 2090 9550

Ffacs 029 2090 9510

E-bost [Anne.Hubbard@wmp.org.uk](mailto:Anne.Hubbard@wmp.org.uk)

## Cyd-destun y polisi

Er nad yw'r pwerau sy'n perthyn i loches a mewnfudo wedi'u datganoli, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru o dan ei swyddogaethau tai, iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol a thrwy ei hagenda ar gyfer cydlynid cymunedol. O ganlyniad, **mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran galluogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddod yn rhan o gymdeithas Cymru.**

Datblygir polisiâu tuag at geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru yng nghyd-destun agenda strategol Llywodraeth Cymru, yn benodol y Rhaglen Lywodraethu (2011) ac o fewn fframwaith deddfwriaeth y DU, a deddfwriaeth Ewropeaidd a rhyngwladol.

**Mae'r Rhaglen Lywodraethu** yn rhestru'r camau gweithredu penodol y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd er mwyn 'creu cymdeithas deg sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid gyda chymunedau cydlynol a chynhwysol' (Llywodraeth Cymru 2011). Nod y Llywodraeth yw gwneud hyn drwy leihau anghydraddoldeb mewn addysg a sgiliau, iechyd, tai a deilliannau cyflogaeth ar gyfer pobl sydd â nodweddion a ddiogelir (yn cynnwys hil), gan gynyddu cyfraddau bodlonrwydd gyda gwasanaethau cyhoeddus a lleihau achosion o droseddau casineb.

Daeth **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** (Deddf Cydraddoldeb 2010) y cyfeirir ati hefyd fel 'y ddyletswydd gyffredinol' i rym yn Ebrill 2011 a'i nod yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach yn ei gweithgareddau o ddydd i ddydd drwy roi ystyriaeth deilwng i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Er mwyn i gyrrff cyhoeddus berfformio dyletswydd cydraddoldeb

y sector cyhoeddus yn well, Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol fel y'u rhestrir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cafodd y rheoliadau eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yn fyw pellgyrhaeddol yng Nghymru nag yn Lloegr ac yn rhoi dyletswyddau ar y sector cyhoeddus sy'n ymwneud ag ymgysylltu, asesiadau effaith ar gydraddoldeb, gwahaniaethau o ran cyflog, caffael, trefniadau adrodd, adolygu a chydraddoldeb a gwybodaeth am gyflogaeth.

Cyhoeddodd awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu hamcanion cydraddoldeb fis Ebrill 2012 a restrodd yn glir y camau gweithredu y mae'r sector cyhoeddus yn eu cymryd er mwyn bodloni'r ddyletswydd cydraddoldeb.

## Polisiâu ar gyfer ffoaduriaid yng Nghymru

Yn 2001, dynododd Llywodraeth San Steffan ardaloedd penodol ledled y wlad yn ardaloedd gwasgaru ar gyfer ceiswyr lloches sy'n cyrraedd y DU. Cafodd yr ardaloedd hyn eu creu i helpu lleddfu pwysau am dai a phwysau cymdeithasol yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr. Yng Nghymru, aeth **Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam** yn ardaloedd gwasgaru swyddogol ar gyfer ceiswyr lloches sy'n aros am

*Mae ceisiwr lloches yn rhywun sydd wedi dod i'r DU i ymarfer ei hawl i hawlio lloches o dan Gonfensiwn 1951 sy'n perthyn i Statws Ffoaduriaid ac sy'n aros am benderfyniad ynglŷn ag a fyddant yn cael statws ffoadur.*

*Mae ffoadur yn rhywun a gafodd ei adnabod gan Lywodraeth y DU fel rhywun sydd angen cael ei amddiffyn o dan Gonfensiwn 1951 ac a gafodd ganiatâd i aros yn y DU, yn gyntaf am gyfnod o bum mlynedd er ei fod yn bosibl y caiff hyn ei ymestyn am gyfnod amhendant.*

benderfyniad am eu hawliad am gael eu hamddiffyn.

Ym mis Mehefin 2008, cyhoeddodd y Llywodraeth ei **Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid** (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008), sy'n rhestru sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ac yn galluogi ffoaduriaid i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru ac i wneud cyfraniad llawn i'r gymdeithas. Mae'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid yn dweud bod cynhwysiad ffoaduriaid yn digwydd pan fydd ffoadur yn dod yn **aelod hollol weithredol o'r gymdeithas, gan gyfrannu ym mywyd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, sifil a gwleidyddol y wlad, a chyfrannu ato.** Mae'r Strategaeth hefyd yn cofnodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran cyflawni cynhwysiad i ffoaduriaid yng Nghymru.

Mae'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid yn rhan o'r ymagwedd strategol a gaiff ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i wireddu ei gweledigaeth ehangach o ddyfodol ffyniannus i Gymru sy'n rhydd rhag hiliaeth a gwahaniaethu, lle bo pawb yn cael eu galluogi i wireddu eu potensial, i gael mynediad teg a chyfartal at wasanaethau ac i gyfrannu'n llawn ym mywyd gwleidyddol a sifil y wlad.

## Data a rhifau

Er bod gan Gymru hanes o ymfudo sy'n gysylltiedig yn benodol â phyllau glo'r de diwydiannol, mae dyfodiad ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ffenomen llawer diweddarach.

Hyd at 2001, penderfynodd niferoedd cymharol fach o geiswyr lloches a ffoaduriaid ymgartrefu yng Nghymru o'i gymharu â rhai manau yn y DU. Newidiodd hyn pan aeth Cymru'n ardal wasgaru er bod y niferoedd cyffredinol yn aros yn isel o'u cymharu â chyfanswm poblogaeth y wlad, sef rhyw 0.3% (EHRC 2010)

Ni chaiff unrhyw adroddiadau rheolaidd, awdurdodol eu cyhoeddi sy'n rhoi ystadegau am loches yng Nghymru (WRC 2010). Yn ôl y Swyddfa Gartref, (2013) roedd 1,571 o **geiswyr lloches yn byw yng Nghymru** yn chwarter cyntaf 2013. Mae'r nifer hon wedi gostwng o uchafbwynt o 2,616 yn chwarter cyntaf 2007.

Yn ôl data a ddarparwyd gan Bartneriaeth Ymfudo Cymru, y pum gwlad uchaf o ran tarddleuedd ceiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru ar ddiwedd mis Mawrth 2013 oedd **Gweriniaeth Pobl Tsieina, Pakistan, Iran, Nigeria ac Afghanistan**. Y grŵp oedran mwyaf cyffredin o ran ceiswyr lloches yw 30-34 oed. **Mae ychydig o dan hanner o'r holl geiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru yn fenywaidd.**

Mae gwybodaeth yn brin iawn am gefndiroedd, amgylchiadau ac anghenion **y ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru**. Nid yw'n ofynnol i geiswyr lloches a gafodd statws ffoaduriaid fyw mewn ardal benodol y DU a chânt symud i rywle arall. Cafodd llawer o'r hyn sy'n hysbys ei gasglu o wybodaeth am geiswyr lloches neu o ymchwil gyda grwpiau bach o ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru (gweler, er enghraifft, Crawley a Crimes 2009)

Er hynny, mae rhai amcangyfrifon o boblogaeth y ffoaduriaid yng Nghymru. Er enghraifft, datganodd adroddiad gan Gyngor Dinas Caerdydd (2005) fod gan Gaerdydd boblogaeth ffoaduriaid wedi'u cyfanheddu o dros

*Roedd 1,571 o **geiswyr lloches yn byw yng Nghymru** yn chwarter cyntaf 2013. Mae'r nifer hon wedi gostwng o uchafbwynt o 2,616 yn chwarter cyntaf 2007 (Swyddfa Gartref 2013).*

*Nid oes unrhyw wybodaeth ystadegol am nifer y **ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru**.*

6,000. Mewn astudiaeth arall, amcangyfrifwyd bod o leiaf 10,000 o ffoaduriaid yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd (Robinson 2006).

Ceir tystiolaeth bod poblogaeth y ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru ar wahân i boblogaeth ehangach ffoaduriaid y DU mewn rhai ffyrdd pwysig. Yng Nghymru, mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn byw yn bennaf mewn nifer gyfyngedig o drefi a dinasoedd a chânt eu tynnu o ystod fwy cyfyngedig o ran cenedligrwydd a grwpiau ieithyddol. Mae tystiolaeth ymchwil ac anecdotaidd yn dangos bod cyfran sylweddol o geiswyr lloches wedi'u gwasgaru i ardaloedd o amddifadedd cymharol. Mewn rhai achosion, cafodd hyn ei gysylltu â thensiynau dros ddyrannu adnoddau (Crawley a Crimes 2009)

## Tai

Ystyrir yn eang bod tai yn gonglfaen ar gyfer integreiddio ffoaduriaid yn llwyddiannus. Darperir llety i geiswyr lloches a gaiff eu gwasgaru yng Nghymru ar sail 'dim dewis' gan ddarparwyr llety'r sector preifat, o dan gontract â'r Swyddfa Gartref (y rhan a oedd gynt yn Asiantaeth Ffiniau'r DU).

Mae'n ofynnol i ddarparwyr llety ddarparu lefel cymorth sylfaenol drwy gydol y cyfnod hawlio lloches. Mae pobl sy'n cael statws ffoaduriaid, caniatâd dros dro neu amhendant i aros yn gymwys i wneud cais am dai cymdeithasol i'w hawdurdod lleol, neu i Landlordiaid Lleol Cofrestredig (RSL) sy'n sefydliadau tai annibynnol. Fodd bynnag yng Nghymru, fel mewn manau eraill, mae ffoaduriaid a gafodd statws yn cael **anawsterau penodol wrth gael mynediad at lety priodol** (Crawley a Crimes 2009). Mae'r anawsterau hyn yn gysylltiedig yn sylweddol â phrinder cymharol tai cymdeithasol a llety preifat fforddiadwy i'w rentu.

Gwelodd arolwg o ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009 fod mwyafrif sylweddol (89.4%) o ffoaduriaid yn byw mewn llety wedi'i rentu, a'r cyngor neu'r awdurdod lleol yw'r landlord ar gyfer dwy ran o dair (Crawley a Crimes 2009). Ychydig iawn o ffoaduriaid sy'n berchen ar eu heiddo eu hunain (4.1%). Mae rhai ffoaduriaid heb fod â chartref eu hunain ond maent yn aros gyda theulu neu ffrindiau, neu'n byw mewn llety dros dro neu mewn hostel. Mae rhai eraill, mewn gwirionedd, yn ddigartref. Mae'n bosibl y bydd ffoaduriaid sy'n symud yn mynd yn ddigartref oherwydd y gofyniad bod ganddynt 'gysylltiad lleol' â'r ardal y maent yn byw ynddi er mwyn bod yn gymwys i wasanaethau digartrefedd. Mae'n bosibl na fydd ffoaduriaid sengl yn gallu cael mynediad at dai cymdeithasol oherwydd nid ystyrir bod ganddynt statws 'angen blaenoriaethol'. Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynglŷn ag agwedd ac ymddygiad preswylwyr eraill tuag at eu hunain a'u plant.

Yn ogystal, mae ymchwil gan yr EHRC (2010) wedi nodi materion ynglŷn ag ansawdd tai a ddarperir i geiswyr lloches a ffoaduriaid ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer gwael ymhlith darparwyr tai a staff rheng flaen a all wneud i bobl deimlo'n agored i niwed ac yn anniogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r sefyllfa tai i geiswyr lloches y gwrthodir statws ffoaduriaid iddynt ond na allant neu na fyddant yn dychwelyd i'w mamwledydd yn arbennig o ansicr. Mae'n bosibl y byddant yn cael eu hunain ar y strydoedd neu'n 'syrffio soffas', mewn perthnasoedd difriol a/neu'n cael rhyw masnachol er mwyn cael rhywle i fyw (Crawley et al. 2011)

## Iechyd

Mae gan geiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru hawl i driniaeth gan y GIG am ddim, cyhyd â bod eu cais (gan gynnwys unrhyw apêl) o dan ystyriaeth. Yn debyg i'r rhai sy'n byw yma fel arfer, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt dalu rhai taliadau statudol y GIG, oni bai eu bod yn gymwys am eithriad, a byddant yn mynd ar restrau aros y GIG, fel y byddai unrhyw un arall yn ei wneud. **Felly, mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn gymwys ar gyfer yr un gwasanaethau iechyd yn union â'r boblogaeth sy'n preswyllo yma.** Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio ei *Reoliadau ar Daliadau Ymwelwyr Tramor (Cymru) 2004* fel y bydd ceiswyr lloches yn gymwys i ofal iechyd am ddim tra byddant yn byw yng Nghymru.

Nid yw ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn grŵp unffurf ac mae eu statws ac anghenion o ran iechyd yn amrywio. Mae llawer o geiswyr lloches yn cyrraedd â'u hiechyd yn dda ac mae rhai astudiaethau'n awgrymu nad yw statws iechyd corfforol ceiswyr lloches wrth iddynt gyrraedd yn arbennig o wael o'i gymharu â phoblogaeth y DU yn gyffredinol (Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru 2009).

Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth y **gallai iechyd corfforol ac iechyd meddwl ceiswyr lloches waethgu yn y DU** oherwydd tlodi a phryder sy'n gysylltiedig â phrofiadau yn y famwlad ac yn ystod y broses cael lloches (Crawley a Crimes 2009). Mae bron yr holl ddisgrifiadau o ddirywiad o ran iechyd meddwl a chorfforol ers iddynt gyrraedd y DU yn perthyn i bryder, straen, iselder ac unigedd sy'n gysylltiedig â bod yn geisiwr lloches, y broses cael lloches, trawsnewid i fod yn ffoadur os cânt hynny a chael eu gwahanu o'u cartref a'u teulu. Ceir rhywfaint o dystiolaeth y gwneir problemau iechyd meddwl yn waeth gan y sefyllfaoedd y mae llawer o ffoaduriaid yn eu profi (Crawley a Crimes 2009).

Er bod gan geiswyr lloches a ffoaduriaid hawl gyfreithiol i gael mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru, ceir tystiolaeth o fynediad annigonol neu anhrefnus oherwydd rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol a strwythurol. Mae llawer o'r rhai y gwrthodwyd statws ffoaduriaid iddynt heb wybod am eu hawl i ofal iechyd sylfaenol am ddim, neu maent yn bryderus ynglŷn â chysylltu â'r awdurdodau ac felly nid ydynt yn mynd at wasanaethau iechyd (Crawley et al, 2011). Mae ymchwil a gynhaliwyd gan MEWN yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg drwy'r Prosiect Ymwybyddiaeth am Iechyd Menywod o Leiafrifoedd Ethnig wedi darganfod bod gan fenywod yn arbennig ddiffyg gwybodaeth am wasanaethau iechyd gan gynnwys yn ystod beichiogrwydd ac mewn perthynas â chynllunio teulu.

## Addysg

Mae addysg yn creu cyfleoedd sylweddol am gyflogaeth ac am gysylltiadau cymdeithasol ehangach ac mae'n offeryn pwysig ar gyfer integreiddio ffoaduriaid yn llwyddiannus.

Mae ar Awdurdodau Lleol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod addysg ar gael ar gyfer pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn yr ardal, yn briodol i'w hoedran, galluoedd a doniau ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddynt. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys, **beth bynnag yw statws ymfudo plentyn** neu hawliau preswyl mewn lleoliad penodol

ac mae'n cynnwys plant o gefndiroedd ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Nid yw'r ffaith y gallai fod gan ddarpar ddisgybl ddim Saesneg neu ond ychydig o Saesneg yn rheswm dilys dros wrthod ei dderbyn. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid Grant Cyflawniadau Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) i ysgolion i gynnal cynhwysiad a chodi cyflawniadau ceiswyr lloches a ffoaduriaid, plant gweithwyr ymfudol a phlant Roma Ewropeaidd.

Y tu hwnt i 18 oed, mae gan geiswyr lloches a ffoaduriaid hawl i astudio unrhyw gwrs ar unrhyw lefel, cyhyd ag y gallant fodloni'r gofynion derbyn a thalu ffioedd y cwrs. Mae ymchwil wedi darganfod bod **gan ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru gymwysterau gwell nag sydd gan eu cymheiriaid yn y DU**; mae gan fwy na chwarter ohonynt radd Prifysgol o'u mamwlad ac mae 8.9% arall yn meddu ar gymhwyster ôl-raddedig. (Crawley a Crimes 2009). Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod nifer y ceiswyr lloches a ffoaduriaid sydd wedi'u hymrestru ar gyrsiau addysg uwch a phellach yng Nghymru yn isel.

Yn ôl *Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid Llywodraeth Cymru* (2008), mae'r prif rwystr i addysg uwch ac addysg bellach ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ariannol. Mae'r rhan fwyaf o golegau a Phrifysgolion yng

*Darganfu archwiliad o sgiliau a chymwysterau a gynhaliwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru yn 2007 fod gan 27% o'r ymatebwyr gymwysterau prifysgol, roedd 33% wedi mynychu cwrs addysg bellach ac roedd gan 24% gymwysterau ysgol uwchradd.*

*Darganfu arolwg o ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru fod tri chwarter ohonynt yn meddu ar dystysgrif ysgol uwchradd a bod 43.9% arall yn meddu ar ddiploma. Roedd mwy na chwarter wedi ennill gradd Prifysgol yn eu mamwlad ac roedd 8.9% arall yn meddu ar gymhwyster ôl-raddedig (Crawley a Crimes 2009).*

Nghymru'n ystyried ceiswyr lloches yn fyfyrwyr rhyngwladol, er bod ganddynt ddisgresiwn i godi ffioedd myfyrwyr cartref ar geiswyr lloches neu i hepgor ffioedd yn gyfan gwbl. Mae rhwystrau eraill yn cynnwys diffyg gwybodaeth a chynghor hygyrch am gyfleoedd priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant, yn ogystal â rhwystrau ymarferol sy'n gysylltiedig â thlodi megis yr anallu i gael mynediad at drafnidiaeth, gofal plant neu i fynychu cyrsiau ar adegau a ragnodir (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008; Crawley a Crimes 2009)

Yn 2010, dosbarthodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gylchlythyr i holl benaethiaid sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru yn rhoi gwybodaeth am ehangu mynediad at addysg uwch ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys rhai o'r rhwystrau a wynebir wrth gael mynediad at astudiaethau ar lefel uwch ac enghreifftiau o arfer effeithiol o ran darparu cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches (CCAUC 2010).

## Cyflogaeth

Mae cyflogaeth yn darparu mecanwaith ar gyfer creu incwm a datblygiad economaidd, ac yn hynny o beth, ystyrir yn eang ei bod yn fecanwaith allweddol ar gyfer integreiddio ffoaduriaid. Mae swyddi hefyd yn werthfawr o ran sefydlu rolau cymdeithasol a werthfawrogir, datblygu cymhwysedd ieithyddol a diwylliannol ehangach, a sefydlu cysylltiadau cymdeithasol.

Ni chaniateir i geiswyr lloches weithio yn y DU tra bod eu ceisiadau am loches yn cael eu hystyried. **Mae'r rhai a gafodd statws ffoaduriaid yn gymwys i weithio** ond yn aml maent yn cael profiad o lefelau uchel o dangyflogaeth a diweithdra, er eu bod wedi cyrraedd Cymru gyda chymwysterau da a phrofiad gwaith blaenorol yn eu mamwledydd. Gall cael cydnabyddiaeth ac achrediad ar gyfer eu cymwysterau tramor fod yn rhwystr sylweddol rhag cyflogaeth.

Darganfu archwiliad o sgiliau a chymwysterau ffoaduriaid gan

Gyngor Ffoaduriaid Cymru yn 2007 fod bron dwy ran o dair

(64%) o'r ffoaduriaid yn ddi-waith, o'i gymharu â 22% yn unig yn y famwlad. Y rhwystrau mwyaf rhag cyflogaeth a nodwyd oedd: diffyg sgiliau iaith a/neu gyfrifiadurol, anawsterau o ran ceisio am swyddi a mynychu cyfweiliadau, diffyg cydnabyddiaeth ar gyfer cymwysterau tramor, anawsterau o ran dod o hyd i swyddi gwag a diffyg geiradaon

Yn yr un modd, darganfu arolwg o ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru, er bod bron dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cael eu cyflogi mewn amrywiaeth o alwedigaethau cyn dod i'r DU, roedd gan lai na thraean (31.7%) swydd yng Nghymru (Crawley a Crimes 2009). O'r ffoaduriaid hynny a oedd yn gyflogedig, roedd y rhan fwyaf mewn swyddi gweinyddol neu glercyddol, neu'n gwneud gwaith glanhau neu mewn ffatri. Nid oedd bron hanner y rhai sy'n gyflogedig yn teimlo bod eu swydd yn briodol i'w cymwysterau, eu sgiliau a'u profiad.

Sylwodd llawer o ffoaduriaid eu bod wedi profi **hiliaeth a gwahaniaethu** o ran dod o hyd i gyflogaeth ac yn eu profiadau yn y gweithle. Codwyd materion yn ymwneud â lliw'r croen, crefydd a chod gwisg (yn enwedig sgarffiau pen) fel achosion gwahaniaethu. Mae llawer o ymatebwyr yn credu na chawsant eu dewis ar gyfer cyfweiliadau swyddi oherwydd nad oes ganddynt enw Saesneg (neu Gymraeg). Mae ymchwil diweddar ar gyfer Race Council Cymru hefyd wedi nodi hiliaeth fel rhwystr sylweddol rhag cyflogi cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru (Crawley 2012)

## Cydlynid Cymunedol

Mae'r broses gynnwys ynghylch mwy na mynediad at wasanaethau neu'r farchnad lafur yn unig; mae hefyd yn ymwneud sut y mae cymunedau'n gweithio yn ddyddiol, a yw unigolion yn teimlo'n ddiogel a sut maent yn cysylltu â'i gilydd.

Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru *Who Do You See?* yn seiliedig ar yr arolwg pwysig cyntaf o agweddau yng Nghymru tuag at hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, pobl drawsrywiol, oedran,

anabledd a hawliau dynol. Darganfu'r arolwg, er bod pobl yng Nghymru'n gyfforddus i raddau helaeth gyda phobl o gefndiroedd gwahanol, **ceir pocedi sylweddol o agweddau negyddol a rhagfarn, yn enwedig mewn perthynas â cheiswyr lloches a ffoaduriaid.**

Adlewyrchir y canfyddiadau hyn mewn ymchwil gan Crawley a Crimes (2009) a welodd fod mwy na hanner yr holl ffoaduriaid wedi profi agweddau cyhoeddus negyddol a hiliaeth wrth iddynt fyw yng Nghymru. Mae hyn yn sylweddol uwch nag ar gyfer poblogaeth Cymru gyfan. Disgrifiwyd nifer sylweddol o ddigwyddiadau o droseddau casineb gan ymatebwyr yr arolwg, ac roedd llawer ohonynt ynghylch cam-drin geiriol a chorfforol, yn aml gan blant yn eu harddegau a llanciau. Yn ogystal, adroddwyd yn helaeth am ddifrod i eiddo. Adroddodd rhai ymatebwyr am wahaniaethu yn y gweithle ac wrth ymdrin ag asiantaethau a darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys yr heddlu. Ni adroddir am lawer o ddigwyddiadau hiliol oherwydd pryderon am y canlyniadau

Mae rhagor o ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010) wedi nodi ystod eang o gam-drin a thrais ar y stryd a adroddwyd gan geiswyr lloches a ffoaduriaid a ddywedodd ei fod yn peri iddynt deimlo'n ddigroeso ac yn annynol. Mae ymchwil gan Crawley (2012) ar ran Race Council Cymru hefyd wedi dod o hyd i dystiolaeth o 'hiliaeth bob dydd' mewn mannau cyhoeddus, ac mae mwy na dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn adrodd am brofiadau o hiliaeth. Ymhlith aelodau'r cymunedau Croenddu, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig, y mae rhai ohonynt yn ymfudwyr, ceir canfyddiadau o anghydraddoldeb hiliol o ran cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus megis tai, gofal iechyd ac addysg. Mae amgyffrediad o wahaniaethu'n arbennig o glir mewn perthynas â chyflogaeth.

## Cyfeiriadau a rhagor o wybodaeth

Binder, S. (2013) *Migration to the UK: Asylum*, Rhydychen: COMPAS, Prifysgol Rhydychen [www.migrationobservatory.ox.ac.uk/sites/files/migobs/Briefing%20-%20Migration%20to%20the%20UK%20-%20Asylum.pdf](http://www.migrationobservatory.ox.ac.uk/sites/files/migobs/Briefing%20-%20Migration%20to%20the%20UK%20-%20Asylum.pdf)

Crawley, H. (2012) *Race Equality and Racism in Wales: An Exploratory Study*, Race Council Cymru [http://communities2point0.files.wordpress.com/2012/11/rcc\\_report.pdf](http://communities2point0.files.wordpress.com/2012/11/rcc_report.pdf)

Crawley, H., Hemmings, J. and Price, N. (2011) *Coping with Destitution: Survival and Livelihood Strategies of Refused Asylum seekers Living in the UK*, Oxford: Oxfam <http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/coping-with-destitution-survival-and-livelihood-strategies-of-refused-asylum-se-121667>

Crawley, H. a Crimes, T. (2010) *Refugees Living in Wales: A Survey of Skills, Experiences and Barriers to Inclusion*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru [www.swan.ac.uk/media/media,41835,en.pdf](http://www.swan.ac.uk/media/media,41835,en.pdf)

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) (2010) *Not Just Another Statistic: Life in Wales for Asylum Seekers and Refugees*, Caerdydd: EHRC [www.equalityhumanrights.com/uploaded\\_files/Wales/njas\\_asylum\\_seekers\\_and\\_refugees.pdf](http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/Wales/njas_asylum_seekers_and_refugees.pdf)

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2008) *Who Do You See? Living Together in Wales*, Caerdydd: EHRC [www.equalityhumanrights.com/uploaded\\_files/download\\_who\\_do\\_you\\_see\\_publication\\_english.pdf](http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/download_who_do_you_see_publication_english.pdf)

CCAUC (2010) *Widening Access to Refugees and Asylum Seekers*, Caerdydd: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru [www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars\\_2010/W10%2013HE%20Widening%20Access%20to%20Refugees%20and%20Asylum%20Seekers.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2010/W10%2013HE%20Widening%20Access%20to%20Refugees%20and%20Asylum%20Seekers.pdf)

Y Swyddfa Gartref (2013) *Ystadegau Ymfudo o fis Ionawr i fis Mawrth 2013*, Llundain: Y Swyddfa Gartref [www.gov.uk/government/publications/tables-for-immigration-statistics-january-to-march-2013](http://www.gov.uk/government/publications/tables-for-immigration-statistics-january-to-march-2013)

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (2009) *Guidance on Healthcare Issues for Asylum Seekers in Wales*, Caerdydd [www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/14727](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/14727)

Robinson, V. (2006) *Mapping the Field: Refugee Housing in Wales*, hact / Cyngor Ffoaduriaid Cymru, [www.wmp.org.uk/documents/wmp/Refugees/Mapping%20the%20field%20Refugee%20housing%20in%20Wales.pdf](http://www.wmp.org.uk/documents/wmp/Refugees/Mapping%20the%20field%20Refugee%20housing%20in%20Wales.pdf)

Llywodraeth Cymru (2011) *Rhaglen Lywodraethu: Cydraddoldeb*, Caerdydd [wales.gov.uk/docs/strategies/110929chap8en.pdf](http://wales.gov.uk/docs/strategies/110929chap8en.pdf)

Llywodraeth Cymru (2009) *Getting Along Together: A Community Cohesion Strategy for Wales*, Caerdydd [wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/commsafety/091130ccstratenv1](http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/commsafety/091130ccstratenv1)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid*, Caerdydd <http://new.wales.gov.uk/dsjlg/publications/communityregen/develop/refugeeinclusionstrategy/strategye.pdf?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid: Arweiniad i ddarparwyr tai a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru*, Caerdydd <http://wales.gov.uk/desh/publications/housing/asylumguide/guide.pdf;jsessionid=1B1586F52270C9955D46E7EAAED2C22E?lang=en>

Cyngor Ffoaduriaid Cymru (2007) *An Audit of Refugee Skills and Qualifications in Wales*, Caerdydd: Cyngor Ffoaduriaid Cymru [www.welshrefugeecouncil.org/wp-content/uploads/2010/03/equalproject\\_summary.pdf](http://www.welshrefugeecouncil.org/wp-content/uploads/2010/03/equalproject_summary.pdf)

## Ynglŷn â'r gyfres o bapurau briffio

Mae'r papur briffio hwn yn un o gyfres a luniwyd gan yr Athro Heaven Crawley, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil ar Bolisi Mewnfudo (CMPR) ym Mhrifysgol Abertawe i wella gwybodaeth a dealltwriaeth am faterion mewnfudo yng Nghymru. Mae'r papurau'n rhestru'r dystiolaeth ar fewnfudo i Gymru mewn perthynas â materion a themâu allweddol sy'n gonsyrn i'r cyhoedd ac o ran polisi ac maent yn darparu gwybodaeth ddiweddar am gyfansoddiad a phrofiadau'r poblogaethau sy'n mewnfudo, sy'n geiswyr lloches ac sy'n ffoaduriaid ac yn byw yng Nghymru.

Gellir lawrlwytho'r papurau briffio o [www.wmp.org.uk](http://www.wmp.org.uk)

Gellir lawrlwytho data ac adnoddau ychwanegol o Borth Mewnfudo Cymru

<http://wmp.infobasecymru.net/IAS>

Mae Partneriaeth Ymfudo Cymru yn croesawu atgynhyrchu'r papur briffio hwn at ddibenion cynrychioli, addysg, hyfforddiant ac ymgyrchu, ar yr amod na chodir tâl am ddefnyddio'r deunydd a chyhyd ag y cydnabyddir ffynhonnell y wybodaeth.